OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 No. 714

# Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) 2020

## RHAN 3

### Diwygiadau i'r Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd

**10.**—(1) Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd (gofynion i ddarparu gwybodaeth i deithwyr) wedi ei diwygio yn unol â pharagraffau (2) i (4).

(2) Yn rheoliad 4(2) hepgorer "ar lafar".

(3) Yn fersiwn Gymraeg y datganiad ar y llestr neu'r awyren yn yr Atodlen—

(a) yn lle "Llywodraeth Cymru a Iechyd Cyhoeddus Cymru" rhodder "asiantaethau iechyd y cyhoedd y DU";

(b) hepgorer "ar www.gov.uk";

(c) ar ôl "14 o ddiwrnodau ar ôl i chi gyrraedd" mewnosoder ", oni bai eich bod mewn categori esempt. Ewch i gov.uk i weld y rhestr esemptiadau.";

(d) hepgorer y testun o "Wedi cyrraedd," hyd at "www.llyw.cymru/coronafeirws".

(4) Yn fersiwn Saesneg y datganiad ar y llestr neu'r awyren yn yr Atodlen—

(a) yn lle "Welsh Government and Public Health Wales" rhodder "UK's public health agencies";

(b) hepgorer "at www.gov.uk";

(c) ar ôl "14 days after you arrive" mewnosoder ", unless you are in an exempt category. To view the exemptions list, visit gov.uk.";

(d) hepgorer y testun o "When you arrive" hyd at "www.gov.wales/coronavirus".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Rhl. 10 mewn grym ar 10.7.2020, gweler **rhl. 1(2)**

**Newid y cyfnod adolygu**

**11.** Yn Rhan 4 y Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd (amrywiol), yn rheoliad 9(1) (adolygu'r gofynion), yn lle is-baragraffau (b) ac (c) rhodder—

"(b) erbyn 27 Gorffennaf 2020;

(c) o leiaf unwaith yn y cyfnod o 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â 28 Gorffennaf 2020;

(d) o leiaf unwaith ym mhob cyfnod dilynol o 28 o ddiwrnodau."

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I2** Rhl. 11 mewn grym ar 10.7.2020, gweler **rhl. 1(2)**

### Diwygiad amrywiol

**12.** Yn Rhan 2 o'r Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd (gofynion i ddarparu gwybodaeth i deithwyr), yn rheoliad 3(2), yn y geiriau cyn is-baragraff (a), yn lle "mharagraff (1)(a)" rhodder "mharagraff (1)".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** Rhl. 12 mewn grym ar 10.7.2020, gweler **rhl. 1(2)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 10/07/2020.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) 2020, RHAN 3.